



Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Bryn Tabor
Heol Maelor
Coedpoeth
Wrecsam
LL11 3RU**

Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2013

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**



Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.gov.uk

© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 26/03/2013

Cyd-destun

Lleolir Ysgol Bryn Tabor ym mhentref Coedpoeth, heb fod ymhell o dref Wreccsam. Mae'r ysgol yn un benodol Gymraeg ac yn gwasanaethu pentref Coedpoeth a phentrefi cyfagos. Fe'i cynhelir gan awdurdod lleol Wreccsam.

Mae'r ysgol yn disgrifio'r ardal a wasanaethir ganddi fel un sydd yn gymysg o ran cefndir cymdeithasol a heb fod yn ffyniannus nac yn dioddef anfanteision economaidd.

Mae 240 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar gofrestr yr ysgol gan gynnwys 39 o blant meithrin yn rhan amser. Derbynnir disgyblion i'r ysgol yn amser llawn yn y Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed.

Dim ond 5% o'r disgyblion a ddaw o gartrefi lle y siaredir y Gymraeg fel iaith gyntaf. Cymraeg yw prif gyfrwng yr addysgu. Daw 1% o ddisgyblion o gefndiroedd lleiafrifol ethnig. Tua 8% o ddisgyblion sydd â hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim ac mae'r ffigur hwn yn is na'r cyfartaleddau sirol a chenedlaethol. Mae gan 16% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig, sydd hefyd yn is na'r ffigur cenedlaethol, ac nid oes yr un disgybl ar ddatganiad.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Bryn Tabor yn 2012-2013 yw £3,109. Yr uchafswm o ran cyllideb ysgol fesul disgybl yn ysgolion cynradd Wreccsam yw £10,422 a'r lleiafswm yw £2,923. Mae Ysgol Bryn Tabor yn safle 51 o'r 60 ysgol gynradd yn Wreccsam o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn ystod tymor yr haf 2007.

Penodwyd y pennaeth presennol ym Medi 2007.

Crynodeb

Perfformiad presennol yr ysgol	Da
Rhagolygon gwella'r ysgol	Da

Perfformiad presennol

Mae'r perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- bod y rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol;
- llwyddiant yr ysgol yn datblygu dwyieithrwydd;
- bod yr addysgu yn gyson dda drwy'r ysgol; a
- bod yr ysgol yn gymuned ofalgar lle mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel.

Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- bod gan y pennaeth a'r uwch dîm rheoli adnabyddiaeth dda o'r ysgol a gweledigaeth glir;
- bod yr ysgol wedi adnabod yn gywir trwy ei gweithdrefnau effeithiol agweddau penodol ar gyfer codi safonau;
- bod cynllun datblygu'r ysgol yn nodi blaenoriaethau clir a strategaethau addas ar gyfer eu gweithredu ac sydd ar waith yn barod; a
- bod y staff yn gweithio'n effeithiol fel tîm.

Argymhellion

- A1 Gwella cyflawniadau ysgrifennu disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2
- A2 Cynllunio'n fwy penodol ar gyfer sicrhau dilyniant o fewn y medrau ar draws y cwricwlwm
- A3 Sicrhau bod disgyblion o allu uwch yn cael tasgau sy'n eu hymestyn yn llawn
- A4 Datblygu rôl y staff cyfan yn y broses hunanarfarnu

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

Safonau: Da

Dengys canlyniadau asesiadau sylfaen y plant ar fynediad i'r ysgol, fod gan y rhan fwyaf ohonynt lefel dda o allu yn y medrau sylfaenol ac eithrio yn y Gymraeg. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da trwy'r Cyfnod Sylfaen, a chynnydd arbennig o dda yn y Gymraeg.

Roedd canran y disgyblion yn cyrraedd y deiliant disgwylidig (deiliant 5) mewn datblygiad ieithyddol, mathemategol, personol a deiliant y Cyfnod Sylfaen yn 2012 yn uwch neu'n agos at y cyfartaledd ysgolion y teulu a chyfartaledd ysgolion Cymru. Mae'r ysgol ymysg y 50% isaf o ysgolion tebyg o ran y nifer o ddisgyblion sydd â hawl i dderbyn prydau ysgol di-dâl yn y tri maes dysgu. O ran niferoedd sy'n cyrraedd deiliant 6 mewn datblygiad mathemategol a phersonol, mae canran yr ysgol yn uwch na'r teulu ond ychydig yn is mewn datblygiad ieithyddol.

Mae'r ganran o ddisgyblion sy'n cyrraedd y lefel ddisgwylidig (lefel 4) yng nghyfnod allweddol 2 yn 2012 mewn Saesneg, mathemateg, gwyddoniaeth a'r dangosydd pynciau craidd yn uwch na chyfartaledd ysgolion Cymru a chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg. Mae perfformiad yn y Gymraeg hefyd yn uwch na chyfartaledd ysgolion Cymru ond ychydig yn is na chanran cyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg. Nid oedd yr ysgol yn cymharu cystal ag ysgolion tebyg o ran niferoedd sy'n cyrraedd lefel 5 yn 2012. Roedd yr ysgol ymysg y 50% isaf o ysgolion tebyg o ran y nifer o ddisgyblion sydd â hawl i dderbyn prydau ysgol di-dâl mewn Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth ac yn y 50% uchaf mewn Saesneg yn 2012.

Yn y Gymraeg a'r Saesneg gwelwyd canlyniadau yn gyffredinol ar i fyny dros y tair blynedd diwethaf. Mae'r ysgol wedi bod yn agos at neu'n uwch na'r teulu a Chymru yn ystod y cyfnod hwn mewn llofaedd a darllen. Er bod cynnydd mewn ysgrifennu ers 2009 yn cyfnod allweddol 2, mae cyflawniadau yn dal ychydig yn is na chyfartaledd canlyniadau ysgolion tebyg. Mewn mathemateg a gwyddoniaeth mae'r canlyniadau wedi bod yn raddol wella gyda'r ysgol cystal neu'n uwch na'r teulu a Chymru ers 2009.

Mae'r gwaith cyfredol yn llyfrau'r disgyblion a'r hyn a welwyd o fewn y dosbarthiadau yn ystod arsylwadau yn dangos cynnydd amlwg mewn safonau medrau yn gyffredinol ar draws yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn defnyddio eu medrau yn briodol ar draws y cwricwlwm. Er mai ail iaith yw'r Gymraeg i ran helaeth o'r disgyblion, maent oll yn ymdrin â'r iaith Gymraeg yn hyderus yn fuan iawn ar ôl dechrau yn yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn gwrando'n astud yn ystod y gwersi. Maent yn ymateb i gwestiynu'r athrawon yn effeithiol ar lafar ac maent yn awyddus i gyfrannu i drafodaethau. Mae gan y mwyafrif o ddisgyblion yn y blynyddoedd cynnar amrediad eang o eirfa a ddefnyddiant gyda mesur da o gywirdeb. Yn gyffredinol maent yn ynganu ac yn goslefu'n ddealladwy. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2, mae llawer o'r disgyblion yn gallu

siarad yn hyderus wrth drafod profiadau a digwyddiadau cyfarwydd. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, maent yn trafod a chyflwyno gwybodaeth yn effeithiol, a chyda gafael dda ar gystrawen naturiol yr iaith lafar.

Mae lefel darllen y rhan fwyaf o'r disgyblion yn y Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen ac yn y ddwy iaith yng nghyfnod allweddol 2 yn briodol i'w hoedran a'u gallu. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r disgyblion yn gyfarwydd ag ystod o strategaethau darllen ac yn gallu eu defnyddio yn effeithiol i wneud synnwyr o'r hyn sy'n cael ei ddarllen. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn darllen ystod eang o ddeunyddiau gyda rhuglder ar draws y cwricwlwm. Maent yn gallu dewis a dethol gwybodaeth o ystod o ffynonellau yn hyderus

Mae datblygiad ysgrifennu yn llyfrau'r disgyblion ar draws yr ysgol yn gyffredinol dda gyda mwyafrif o'r disgyblion yn cynhyrchu darnau derbyniol o waith ysgrifenedig ar draws y cwricwlwm.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r cynnydd yn amlwg dros gyfnod byr o amser. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ysgrifennu'n glir mewn ystod eang o ffurfiau ac i amrywiaeth o bwrpasau. P'run bynnag, nid yw'r disgyblion mwyaf galluog bob amser yn cynhyrchu gwaith ysgrifennu sy'n cyfateb i'w gallu.

Nid oes gwahaniaeth arwyddocaol rhwng cyflawniad merched a'r bechgyn.

Mae'r disgyblion sydd â hawl i ginio am ddim, a disgyblion anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd priodol i'w hoed a'u gallu.

Lles: Da

Mae gan bron bob disgybl ymwybyddiaeth dda o bwysigrwydd bwyta'n iach ac ymarfer y corff. Maent yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn gweithgareddau cadw'n heini ac ymarfer y corff o fewn yr ysgol ac o fewn gweithgareddau corfforol wedi oriau ysgol.

Mae ymddygiad bron pob un o'r disgyblion yn dda a dangosant barch at ei gilydd ac at oedolion. Teimla bron pob disgybl yn ddiogel yn yr ysgol, a gwyddant at bwy i droi os oes ganddynt broblem.

Mae'r disgyblion bron i gyd yn ddysgwyr brwdfrydig sy'n dyfalbarhau ar eu tasgau am gyfnodau estynedig. Gallant gydweithio'n effeithiol fel grwpiau ac mewn parau trafod. Maent bron i gyd yn mwynhau'r profiadau a ddarperir ar eu cyfer a dangosant falchder yn eu gwaith. Mae'r disgyblion yn cyfrannu'n rheolaidd tuag at eu dysgu trwy fynegi barn am eu hymdrechion ac ystyried sut i wella eu gwaith. Mae hyn yn meithrin y disgyblion yn effeithiol i ddod yn ddysgwyr annibynnol.

Mae presenoldeb yr ysgol yn gyson dda ac yn uwch na ffigurau cymharol cenedlaethol ac o fewn y 50% uchaf o ysgolion tebyg o ran niferoedd y disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim.

Mae'r cyngor ysgol a'r eco gyngor yn cwrdd yn rheolaidd ac yn gweithredu ffyrdd effeithiol o gaffael barn a sylwadau cyd-ddisgyblion ac o sicrhau bod y sylwadau yn cael eu hystyried. Mae'r disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau

mentergarwch, chwaraeon, cyngherddau, gwasanaethau ac eisteddfodau yn rheolaidd. Maent hefyd yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau yn y gymuned gan gynnwys wythnos cadw Cymru'n daclus, canu carolau, diddanu'r henoed a chodi arian at achosion da. Maent bron oll, ar draws yr ysgol, yn elwa o'r cyfleoedd hyn ac yn meithrin hyder.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	Da
--	-----------

Profiadau dysgu: Da

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau sy'n ddiddorol, yn ysgogi'r disgyblion yn dda ac yn eu cymell i ddysgu. Gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol o'r gymuned leol i gyfoethogi'r dysgu. Mae ymwelwyr o'r gymuned yn dod i mewn i siarad am brofiadau ac mae'r disgyblion yn ymweld â mannau diddorol yn y gymuned i gryfhau eu gwybodaeth o'u treftadaeth megis Melin y Nant a llwybr Bersham.

Trwy gynllunio ar y cyd, mae'r athrawon yn sicrhau cysondeb a dilyniant priodol yn y meysydd cwricwlaidd. Mae'r cynllunio'n ymateb i'r her o godi safonau gwaith ysgrifenedig y bechgyn ac o ymateb i anghenion disgyblion llai galluog. Serch hynny, cyfyng yw'r cyfleoedd i ymestyn a herio'r plant mwyaf galluog.

Mae cyfleoedd digonol i ddatblygu'r medrau ar draws y cwricwlwm ond nid oes cynllunio digon bwriadus i sicrhau dilyniant cynyddol yn y medrau hyn, yn arbennig yng nghyfnod allweddol 2. Rhoddir sylw priodol i fedrau datrys problemau a medrau meddwl ar draws y cwricwlwm.

Rhoddir sylw da i'r dimensiwn Cymreig drwy astudiaethau o hanes a llên gwerin yr ardal, ymweliadau lleol ac ymweliadau achlysurol gan artistiaid ac awduron. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad cynaliadwy ac ar gyfer agweddau ar yr ysgol iach, yn gadarn. Mae cyfleoedd da i ddisgyblion ymestyn eu gwybodaeth o faterion yn ymwneud â dinasyddiaeth fyd eang trwy weithgareddau elusennol ac astudio gwledydd a materion tramor.

Addysgu: Da

Mae ansawdd yr addysgu'n gyson dda ar draws yr ysgol. Mae perthynas waith arbennig o dda rhwng holl staff yr ysgol a'r disgyblion ac mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol drwyadl. Gwneir defnydd effeithiol o staff cymorth dysgu i gefnogi disgyblion. Mae'r gefnogaeth a gynigir ganddynt yn dda ac yn greiddiol i lwyddiant y disgyblion llai abl.

Yn y gwersi lle mae'r addysgu ar ei orau, rhoddir cyfleoedd i'r disgyblion gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu trwy wneud eu penderfyniadau eu hunain a gweithio'n annibynnol. Mae athrawon yn cwestiynu'n benodol er mwyn symud y dysgu yn ei flaen. Maent yn sicrhau bod amcanion clir ar gyfer datblygu medrau penodol mewn gwersi a gweithgareddau ffocws. Mae'r ystod o ddulliau ac adnoddau a ddefnyddia'r athrawon yn symbylu a herio'r disgyblion yn effeithiol i wneud eu gorau.

Yn yr ychydig wersi lle nad yw'r addysgu cystal, mae gorgyfarwyddo gan yr athrawon yn cyfyngu cyfleoedd disgyblion i ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol. Nid yw'r tasgau bob amser yn herio digon y disgyblion uwch eu gallu.

Mae gan yr ysgol systemau asesu effeithiol i olrhain cynnydd y disgyblion. Mae athrawon yn cynnig adborth berthnasol ar lafar ac yn ysgrifenedig sy'n nodi'r hyn sydd angen i'r disgyblion ei wneud i wella gwaith. Mae defnydd effeithiol yn cael ei wneud o asesiadau ar gyfer llywio'r cynllunio. Mae asesu ar gyfer dysgu'n cael sylw da drwy'r ysgol. Rhoddir rhan weithredol i ddisgyblion wrth bennu eu meini prawf llwyddiant ac wrth asesu eu cynnydd eu hunain.

Mae rhieni yn derbyn gwybodaeth eglur am ddatblygiad eu plant yn flynyddol.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn gymuned groesawgar a gofalgwr lle rhoddir blaenoriaeth uchel i les disgyblion. Anogir disgyblion i fwyta'n iach a sicrhwr cyfleoedd amrywiol ar gyfer ymarfer y corff yn rheolaidd. Mae'r ysgol yn hyrwyddo presenoldeb y disgyblion yn gyson trwy weithrediad effeithiol strategaethau penodol.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad personol, ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn effeithiol. Mae hefyd yn hyrwyddo gwerthoedd megis gonestrwydd, goddefgarwch a thegwch y disgyblion yn effeithiol drwy amseroedd cylch addas.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gyda darparwyr ac asiantaethau amrywiol sy'n cefnogi darpariaeth yr ysgol er lles disgyblion.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda ac mae'r gefnogaeth i ddisgyblion is eu gallu yn un o gryfderau'r ysgol. Mae gweithdrefnau'r ysgol yn bodloni gofynion statudol yn llawn. Mae cynlluniau addysg unigol yn cynnwys targedau clir sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Caiff anghenion disgyblion eu hadnabod yn gynnar a threfnir ymyrraeth effeithiol ar eu cyfer. Mae'r ymyrraeth hon yn cynnwys defnydd pwrpasol o staff, adnoddau ac amrywiaeth o gynlluniau cynhaliol i sicrhau'r cyfleoedd gorau posibl i bob disgybl ddatblygu.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae'r ysgol yn gymuned gyfeillgar ble mae'r disgyblion yn cyd-dynnu a gweithio'n effeithiol. Mae cyfundrefnau a chynllunio cwricwlwm yr ysgol yn sicrhau bod pob disgybl yn cael cyfleoedd cyfartal ym mhob gweithgaredd ar draws yr ysgol. Hyrwyddir parch at wahaniaeth a chydaddoldeb hiliol yn naturiol drwy waith amrywiol yn ymwneud â dinasyddiaeth fyd eang a chyfnodau o addysg bersonol a chymdeithasol briodol. Rheolir ymddygiad y disgyblion yn effeithiol drwy feithrin parch a phwysleisio ymatebion cadarnhaol.

Mae cyflwr yr adeilad yn gyffredinol dda ac yn cynnig mannau dysgu mewnol ac allanol priodol ar gyfer amrediad y gweithgareddau a gynllunnir. Llwyddwyd i greu awyrgylch lliwgar ac amrywiol trwy arddangos gwaith disgyblion ar furiau'r adeilad.

Mae gan yr ysgol ddigon o adnoddau dysgu pwrpasol sy'n gweddu'n dda i anghenion dysgu'r disgyblion gan gynnwys y ddarpariaeth dechnolegol ddiweddaraf.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Da
--	-----------

Arweinyddiaeth: Da

Mae'r pennaeth a'r uwch dîm rheoli yn adnabod yr ysgol yn dda. Mae ganddynt weledigaeth glir sydd wedi'i rhannu yn llwyddiannus â'r staff, y llywodraethwyr a'r disgyblion. Maent yn cynnig arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol gyda ffocws amlwg ar godi safonau cyflawniad disgyblion a gwella'r ddarpariaeth. Er bod pob aelod o staff yn cael cyfle i drafod yr adroddiad hunanarfarnu, nid ydynt bob amser yn cael cyfle i gyfrannu i'r broses hunanarfarnu a datblygu eu rôl arweiniol yn llawn.

Mae'r corff llywodraethol yn cefnogi'r ysgol fel ffrind beirniadol ac wedi sefydlu nifer o is-bwyllgorau i reoli'r ysgol yn effeithiol. Caiff y llywodraethwyr ddadansoddiad clir o ddata perfformiad yr ysgol sy'n cael ei ddefnyddio'n fwriadus ar gyfer herio'r ysgol. Mae rhai o'r llywodraethwyr yn ymweld â dosbarthiadau i gasglu tystiolaeth. Maent yn wybodus ynglŷn â'r prif faterion sydd angen sylw o fewn yr ysgol ac yn deall yn llawn arwyddocâd data cyrhaeddiad yr ysgol.

Mae'r ysgol yn rhoi sylw dyledus i nifer o flaenoriaethau cenedlaethol a lleol cyfredol.

Mae egwyddorion y Cyfnod Sylfaen wedi eu sefydlu yn gadarn ynghyd â medrau meddwl ac asesu ar gyfer dysgu. Mae'r ysgol hefyd yn rhoi sylw dyledus i lais y dysgwyr ymhob elfen o fywyd yr ysgol.

Gwella ansawdd: Da

Mae'r adroddiad hunanarfarnu o ansawdd da ac yn adnabod yn glir y meysydd i'w datblygu o fewn yr ysgol. Defnyddir ystod dda o weithgareddau monitro priodol gan gynnwys dadansoddi data, arsylwi gwersi ac edrych ar waith disgyblion. Caiff holl randdeiliaid yr ysgol gyfle i gyfrannu i'r broses o greu trosolwg arfarnol o'r ysgol.

Mae'r cynllun gwella ysgol yn canolbwyntio'n briodol ar godi safonau. Mae'n cynnwys meini prawf llwyddiant a therfynau amser clir ar gyfer cwblhau ac adolygu cynnydd. Mae yna gysylltiad amlwg rhwng y broses hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant. Mae'r ysgol yn cynnal cyfarfodydd ar wahân o fewn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn rheolaidd i gynllunio'r cwricwlwm ac i rannu arferion addysgu diweddaraf megis asesu ac olrhain cynnydd disgyblion.

Mae'r ysgol wedi ymglymu mewn rhwydweithiau arfer broffesiynol gyda ysgolion y clwstwr, sy'n cyfrannu'n effeithiol at allu'r ysgol i fonitro ei pherfformiad ei hun. Mae hefyd yn rhan o ddwy gymuned ddysgu broffesiynol sy'n dechrau cael effaith ar godi safonau llythrennedd disgyblion.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae gan yr ysgol bartneriaethau cryf gyda'r rhieni a'r gymuned. Mae'r rhieni yn gefnogol iawn i'r ysgol ac yn cyfrannu tuag at nifer o weithgareddau, gan gynnwys codi arian i wella'r ddarpariaeth addysgol a dod i mewn i wrando ar ddisgyblion yn darllen.

Mae ystod briodol o asiantaethau a sefydliadau allanol, fel gwasanaethau iechyd a chymdeithasol, busnesau lleol a sefydliadau cymunedol, yn cyfrannu eu harbenigedd yn dda i gefnogi gwaith yr ysgol yn effeithiol. Meithrinir cysylltiadau gwerthfawr gyda busnesau lleol, megis archfarchnad yn Wrecsam, sy'n hybu ymwybyddiaeth dda o fedrau entrepreneuriaidd.

Mae gan yr ysgol bartneriaeth gref hefyd gyda'r gymuned leol ac yn rhan o ddigwyddiadau fel plannu llysiau a chodi sbwriel. Daw aelodau o'r gymuned i'r ysgol i siarad am eu gwaith. Mae'r cysylltiadau hyn yn dylanwadu'n gadarnhaol ar gyfoethogi profiadau disgyblion. Mae gan yr ysgol bartneriaeth strategol effeithiol gydag ysgolion cynradd Cymraeg y sir a'r ysgol uwchradd sy'n derbyn y disgyblion. Mae'r cysylltiadau a threfniadau gyda'r ysgol uwchradd leol yn gynhwysfawr ac yn sicrhau trosglwyddo effeithiol sy'n paratoi'r disgyblion yn dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg. Mae'r ysgol hefyd yn gweithio'n dda gydag ysgolion Cymraeg eraill y sir ar brosiectau pwrpasol er mwyn sicrhau cysondeb yn y broses o gymedroli a safoni gwaith disgyblion a chynllunio ar gyfer y dyfodol.

Mae trefniadau da wedi eu sefydlu gyda'r cylch meithrin sy'n cyfarfod ar safle'r ysgol ar gyfer trosglwyddo a chroesawu disgyblion newydd i'r ysgol.

Rheoli adnoddau: Da

Mae'r ysgol wedi'i staffio'n briodol i addysgu'r cwricwlwm. Gwneir defnydd da o amser, profiad ac arbenigedd y staff. Mae cydweithio rhwng yr athrawon a'r staff cynorthwyol yn effeithiol iawn ac yn cael dylanwad cadarnhaol ar y dysgu ar addysgu.

Gwna athrawon ddefnydd da o amser digyswllt ar gyfer cynllunio a chyflawni dyletswyddau cwricwlaidd. Mae gweithdrefnau addas yn bodoli o fewn yr ysgol ar gyfer cefnogi datblygiad proffesiynol aelodau'r staff. Ceir cyfleoedd i drafod ag eraill a rhannu arfer dda. Mae trefniadau rheoli perfformiad staff dysgu yn arwain at dargedau sy'n cyfeirio'n benodol at godi safonau a gwella'r ddarpariaeth.

Mae'r pennaeth a'r is-bwyllgor cyllid yn monitro'r gyllideb yn briodol. Mae'r ysgol yn llwyddo i dargedu'r cyllid sydd ar gael i ymateb i'r blaenoriaethau sy'n cael eu cynnwys yn y cynllun gwella ysgol.

O ystyried ei deilliannau, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

Atodiad 1

Sylwadau ar ddata perfformiad

Data perfformiad

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r ganran o ddisgyblion saith oed sydd wedi cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (deilliant 5) mewn datblygiadau ieithyddol, mathemategol, personol a deilliant y Cyfnod Sylfaen yn 2012 yn uwch na chyfartaledd ysgolion Cymru. Mae'r ganran yn uwch hefyd na'r teulu o ysgolion tebyg mewn datblygiad mathemategol ond ychydig yn is na chyfartaledd canran y teulu mewn datblygiad llythrennedd a datblygiad personol.

Nid yw'r ysgol yn cymharu cystal ag ysgolion tebyg o ran niferoedd sy'n cyrraedd tu hwnt i'r deilliant disgwyliedig mewn datblygiad llythrennedd ond yn perfformio'n uwch na'r teulu ac ysgolion Cymru mewn datblygiad mathemategol a phersonol yn 2012.

Mae'r ysgol ymysg y 50% isaf o ysgolion tebyg o ran nifer y disgyblion sydd â hawl i dderbyn prydau ysgol di-dâl yn y tri maes dysgu ar ddeilliant 5, ond yn agos i ffin y 50% uchaf mewn datblygiad mathemategol. Ar ddeilliant 6, mae'r ysgol ymysg y 25% uchaf mewn datblygiad personol, y 50% uchaf mewn datblygiad mathemategol a'r 50% isaf mewn iaith.

Mae canran y disgyblion 11 mlwydd oed sydd wedi cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (lefel 4) yn 2012 mewn llefaredd a darllen Cymraeg yn uwch neu debyg i gyfartaledd cenedlaethol a'r teulu o ysgolion. Mae canlyniadau ysgrifennu ychydig yn is na chyfartaledd canran ysgolion tebyg ac ysgolion Cymru. Mae'r canlyniadau hefyd yn uwch na'r teulu a chenedlaethol mewn llefaredd a darllen Saesneg ond ychydig yn is na'r teulu mewn ysgrifennu. Mewn mathemateg a gwyddoniaeth, mae'r canlyniadau yn uwch na'r teulu a'r ffigur cenedlaethol.

Yn y Gymraeg gwelwyd canlyniadau ar i fyny mewn llefaredd a darllen yn arbennig o fewn y tair blynedd diwethaf. Mae'r ysgol wedi bod yn agos at neu'n uwch na chanran y teulu a Chymru yn ystod y cyfnod hwn. Er bod cynnydd yn lefel yr ysgrifennu ers 2009, mae'n dal ychydig yn is na'r teulu a Chymru. Mae canlyniadau lefel 5 wedi bod yn anwastad dros y pedair blynedd, yn is na'r teulu a Chymru yn 2012 er yn debyg neu'n uwch yn 2011.

Mewn Saesneg, bu canlyniadau lefel 4 yn weddol wastad ers 2009 gyda thueddiad ar i fyny gyda'r ysgol yn perfformio cystal neu well na'r teulu a Chymru mewn llefaredd a darllen ond yn dangos canlyniadau anwastad mewn ysgrifennu gyda'r ysgol ychydig yn is na'r teulu a Chymru yn 2012 ar ôl bod yn uwch na'r teulu a Chymru yn 2011. Mae canlyniadau lefel 5 ers 2006 wedi bod yn gyffredinol anwastad gyda'r ysgol ychydig yn is na'r teulu a Chymru yn 2012 ar ôl bod yn uwch na'r teulu a Chymru yn 2011.

O fewn mathemateg lefel 4, mae'r canlyniadau wedi bod yn raddol wella gyda'r ysgol cystal neu'n uwch na chyfartaledd canran y teulu a Chymru ers 2010. Mae canlyniadau lefel 5 wedi bod yn raddol wella ond yn dal yn is na'r teulu a Chymru.

Mae canlyniadau lefel 4 gwyddoniaeth wedi bod yn uwch na'r teulu a Chymru ers 2009. Mae canlyniadau lefel 5 wedi bod yn anwastad gyda'r ysgol yn perfformio yn uwch na'r teulu a Chymru yn 2011 ac yn is na hwy yn 2012.

Mae'r dangosydd pwnc craidd wedi bod yn raddol gynyddu ers 2009 ac mae bellach yn uwch na'r teulu a Chymru.

O fewn cyfnod allweddol 2 roedd yr ysgol ymysg y 50% isaf o ysgolion tebyg o ran y nifer o ddisgyblion sydd â hawl i dderbyn prydau ysgol di-dâl mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth. Roedd yn y 50% uchaf mewn Saesneg yn 2012.

Nid oes gwahaniaeth arwyddocaol rhwng cyflawniad merched a'r bechgyn ac eithrio mewn llythrennedd yn y Cyfnod Sylfaen ac ysgrifennu yn y Gymraeg yng nghyfnod allweddol 2. Mae perfformiad y merched yn uwch na pherfformiad y bechgyn yn yr achosion hyn.

Mae'r disgyblion sydd â hawl i ginio am ddim, disgyblion anghenion dysgu ychwanegol neu ddisgyblion o gefndiroedd lleiafrifol ethnig yn gwneud cynnydd priodol i'w hoed a'u gallu.

Atodiad 2

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i rieni

Daeth 14 o ymatebion i law. Mae'r ymatebion yn rhoi darlun cadarnhaol, ac yn uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol ar gyfer ysgolion cynradd ar gyfer pob agwedd.

Mae pob rhiant yn fodlon â'r ysgol yn gyffredinol ac yn datgan bod eu plant yn hoffi'r ysgol ac yn gwneud cynnydd da yn eu gwaith. Dywedant fod eu plant wedi derbyn cymorth i ymgartrefu'n dda wrth ddechrau yn yr ysgol. Maent hefyd o'r farn fod y plant yn ddiogel yn yr ysgol ac yn eu helpu i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. Maent yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion a derbyniant wybodaeth gyson am gynnydd y plant.

Mae bron pob rhiant o'r farn fod yr addysgu ac ymddygiad yn dda a bod y staff yn trin y disgyblion yn deg ac yn disgwyl iddynt wneud eu gorau. Maent yn datgan bod yr ysgol yn cynnig amrywiaeth dda o weithgareddau ac yn annog y disgyblion i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.

Mae bron pob rhiant hefyd yn datgan bod y gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae'r plant yn ei ddysgu yn yr ysgol. Maent o'r farn fod eu plant wedi'u paratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf a bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. Teimplant yn esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn neu nodi problem.

Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Cwblhaodd 101 o ddysgwyr cyfnod allweddol 2 yr holiadur. Mae'r ymatebion yn gadarnhaol ac o gwmpas neu'n uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol.

Mae pob un o'r dysgwyr yn datgan bod athrawon ac oedolion eraill o fewn yr ysgol yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd.

Mae bron pob un yn dweud eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol, yn teimlo'n ddiogel ac yn gwybod beth i'w wneud a phwy i siarad â nhw os byddant yn poeni neu yn gweld y gwaith yn anodd. Maent yn datgan bod yr ysgol yn eu dysgu sut i gadw'n iach a bod yna lawer o gyfleoedd iddynt ymarfer y corff yn rheolaidd. Dywedant fod yr ysgol yn delio yn dda ag unrhyw fwlio. Nododd bron pob un o'r disgyblion hefyd fod y gwaith cartref yn helpu iddynt ddeall a gwella eu gwaith yn yr ysgol. Maent yn dweud bod ganddynt ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud eu gwaith.

Mae llawer o'r disgyblion o'r farn bod ymddygiad yn dda ac nad oes camymddwyn yn effeithio ar eu gallu i weithio.

Atodiad 3

Y tîm arolygu

Owen Glyn Roberts	Arolygydd Cofnodol
Meinir Howells	Arolygydd Tîm
Dylan Jones	Arolygydd Lleyg
Eleri Edwards	Arolygydd Cymheiriaid
Kevin Williams	Enwebai'r Ysgol

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	Meithrin	Derbyn	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	3-4	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Rhestr termau – Cynradd

Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeiliant 1 i ddeiliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deiliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deiliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deiliant disgwylidig (deiliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwylidig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarterli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.